

**CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU**

**Dyddiad Cyhoeddi:** 1 Chwefror 2018

**STATWS: CYDYMFFURFIO**

**CATEGORI: GWYDDONIAETH**

**Teitl:** Ymbelydredd Ioneiddio – Gofynion ar gyfer sefydliadau GIG yng Nghymru o fis Chwefror 2018

**Dyddiad dod i ben / Adolygu:** Chwefror 2023

**I'w weithredu gan:**

Prif Weithredwyr; Cyfarwyddwyr Meddygol; a Chyfarwyddwyr Therapiau a Gwyddorau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG

**I gael gwybodaeth:**

Cadeiryddion, Cyfarwyddwyr Nyrsio ac Ysgrifenyddion Bwrdd y Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG  
Cyfarwyddwr Cyffredinol/Prif Weithredwr GIG Cymru  
Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru  
Y Tîm Gweithrediadau – Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru  
Tîm Cyfathrebu Llywodraeth Cymru - Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru  
Prif Swyddog Meddygol  
Dirprwy Brif Swyddog Meddygol  
Prif Weithredwr, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch Cymru  
Prif Swyddog Deintyddol

**Angen gweithredu erbyn:** Ar unwaith

**Anfonir gan:** Dr Rob Orford, Prif Gynghorydd Gwyddonol, Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru

**Enw Cyswllt yn Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru :**

Dr Rob Orford, Prif Gynghorydd Gwyddonol, Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ. 0300 258315, [healthcarescienceandtherapies@llyw.cymru](mailto:healthcarescienceandtherapies@llyw.cymru)

**Dogfen(nau) amgaeedig:**

Dim

Annwyl Gydweithwyr,

## **YMBELYDREDD ÏONEIDDIO – GOFYNION AR GYFER SEFYDLIADAU GIG YNG NGHYMRU O FIS CHWEFROR 2018**

1. Ar ôl dechrau mis Chwefror, mae'n rhaid i bob sefydliad GIG Cymru sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion newydd sy'n ymwneud ag Ymbelydredd Ïoneiddio.

### **Cefndir**

2. Mae'r rheoliadau hyn, yn rhannol, yn gweithredu darpariaethau'r Gyfarwyddeb Cyngor 2013/59/Euratom dyddiedig 5 Rhagfyr 2013 (a elwir yn Gyfarwyddeb Safonau Diogelwch Sylfaenol, neu BSSD). Mae'r BSSD yn pennu'r safonau diogelwch sylfaenol ar gyfer diogelu yn erbyn y peryglon o ddod i gysylltiad ag ymbelydredd Ïoneiddio. Yn benodol, mae'r Rheoliadau yn mynd i'r afael â diogelu gweithwyr, y cyhoedd ac unigolion sy'n cael eu trin rhag ymbelydredd wrth iddynt ddod i gysylltiad meddygol neu ddelweddu nad yw'n feddygol, gan ddefnyddio cyfarpar radiolegol. Caiff y BSSD ei throsi i ddeddf y DU ar ddechrau mis Chwefror.
3. Mae'r Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn yn atgoffa sefydliadau GIG Cymru o'u rhwymedigaeth ac yn amlygu prif ofynion y ddwy set newydd o Reoliadau, sef:
  - Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 2017<sup>1</sup> a
  - Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2017<sup>2</sup>
4. Dylid darllen Cylchlythyr Iechyd Cymru ar y cyd â'r Rheoliadau a dogfennau cyfarwyddyd ategol<sup>3</sup>.

### **Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 2017**

5. Mae Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 2017 yn berthnasol i bob cyflogwr sy'n gweithio ag ymbelydredd Ïoneiddio gan gynnwys y rheini sy'n gweithio gyda:
  - sylweddau ymbelydrol: niwclidau ymbelydrol artiffisial a niwclidau ymbelydrol naturiol a gaiff eu prosesu ar gyfer eu priodweddau ymbelydrol, holltadwy neu ffrwythlon;
  - niwclidau ymbelydrol naturiol na chaiff eu prosesu oherwydd eu priodweddau ymbelydrol, holltadwy neu ffrwythlon;
  - generaduron ymbelydredd, megis dyfeisiau pelydr-X;
  - cyflymyddion gronynnol;
  - gweithio mewn atmosffer sy'n cynnwys radon, sy'n uwch na chrynodiad

<sup>1</sup> <http://www.legislation.gov.uk/uksi/2017/1075/contents/made>

<sup>2</sup> <http://www.legislation.gov.uk/uksi/2017/1322/contents/made>.

<sup>3</sup> <https://services.hse.gov.uk/bssd/>

blynyddol cyfartalog o 300Bq m-3.

6. O dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 2017, mae'n rhaid i gyflogwyr gofrestru â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE), neu gael caniatâd yr Awdurdod hwnnw am waith penodol y maent yn ei wneud ag ymbelydredd Ïoneiddio. Gelwir hyn yn 'ddull graddedig'. Gan ddibynnu ar lefel y risg (maint a thebygolrwydd y datguddiad) sy'n gysylltiedig â'r gwaith ymbelydredd Ïoneiddio yr ydych chi'n ei wneud, efallai y bydd angen i chi wneud y canlynol:
  - Rhybuddio;
  - Cofrestru;
  - Cael caniatâd;
  - neu mwy nag un o'r uchod.
7. Mae'n rhaid i'r cais gael ei wneud gan y cyflogwr neu gan weithiwr a awdurdodir gan y cyflogwr. Ni all trydydd parti ei gyflwyno ond gallan nhw roi cyngor ichi am eich cais. Mae'n rhaid i chi wneud cais cyn cychwyn gwaith newydd, a gwneud hynny erbyn **5 Chwefror 2018** os ydych eisoes wedi hysbysu'r HSE am y gwaith. Nid yw unrhyw hysbysiad a wnaed o dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999 yn ddilys o dan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 2017.

### **Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2017**

8. Bydd Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2017 yn dod i rym ar 6 Chwefror 2018, gan ddirymu a disodli Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, Rheoliadau Meddyginiaethau (Gweinyddu Sylweddau Ymbelydrol) 1978 a'r Gorchymyn Meddyginiaethau (Sylweddau Ymbelydrol) 1978.
9. Ar ôl 6 Chwefror, bydd mwyafrif y ddarpariaeth sy'n ymwneud â chyfarpar meddygol a gynhwysir mewn Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio blaenorol yn cael ei throsglwyddo i Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2017. Yng Nghymru, bydd y pwerau rheoleiddio sy'n gysylltiedig â chyfarpar meddygol yn symud o'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.
10. Mae Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2017 yn dilyn trefn sy'n debyg i Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000. Nodir y cyflogwr fel y sawl sy'n cyflawni'r ddyletswydd, a bydd yn darparu fframwaith o weithdrefnau a phrotocolau ar gyfer y gweithwyr proffesiynol a fydd, hefyd fel y rhai sy'n cyflawni'r ddyletswydd, yn gwneud amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys cyfiawnhau ac optimeiddio datguddiadau.
11. Mae Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2017 yn cynnwys gofynion ar gyfer nifer o faterion, nas cyfeiriwyd atynt neu y cyfeirir atynt i raddau llai yn Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000. Mae'r rhain yn cynnwys:
  - Trwydded ar gyfer meddygaeth niwclear;

- Delweddu anfeddygol gan ddefnyddio cyfarpar radiolegol meddygol;
- Gofalwyr a chysurwyr ac
- Arbenigwyr Ffiseg Feddygol.

12. Yn unol â'r BSSD mae'n ofynnol cyfiawnhau pob datguddiad sy'n ymwneud ag ymbelydredd ïoneiddio cyn i'r datguddiad gael ei wneud. Mae'r Gyfarwydddeb yn cyfeirio at ddwy lefel o gyfiawnhad; cyfiawnhad o fathau o ymarfer ar gyfer pob practis a chyfiawnhad am ddatguddiadau unigol at ddibenion delweddu meddygol ac anfeddygol pan ddefnyddir cyfarpar radiolegol meddygol. Mae Rheoliadau Ymbelydredd Ìoneiddio (Datguddio Meddygol) 2017 yn berthnasol i ddatguddiadau unigol yn unig.

13. Dylai sefydliadau GIG Cymru fod yn ymwybodol o ofynion Rheoliadau Ymbelydredd Ìoneiddio (Datguddio Meddygol) 2017 fel a ganlyn:

- Mae'n rhaid i gyflogwyr gael trwydded ar gyfer pob gosodiad radiolegol meddygol, megis ysbyty neu wasanaeth delweddu symudol, lle caiff sylweddau ymbelydrol eu gweinyddu ar gyfer diagnosis, triniaeth neu ymchwil - bydd y drwydded hon yn diffinio'r amrywiaeth o wasanaethau y gellir eu darparu yn y lleoliad hwnnw. Mae ffi yn daladwy am y drwydded.
- Mae'n rhaid i ymarferwyr, megis meddygon meddygaeth niwclear, gael trwydded i gyfiawnhau'n glinigol ddatguddiadau sy'n cynnwys gweinyddu sylweddau ymbelydrol ar gyfer diagnosis, triniaeth neu ymchwil; mae trwydded yr ymarferydd yn ddilys ar gyfer unrhyw fan y mae ganddynt yr hawl i weithredu fel ymarferydd o dan Reoliadau Ymbelydredd Ìoneiddio (Datguddio Meddygol) 2018. Nid oes ffi yn daladwy am drwydded yr ymarferydd.
- Dim ond un drwydded fydd ei hangen ar yr ymarferydd, waeth faint o gyflogwyr y mae'n gweithio iddynt; bydd cwmpas y drwydded yn adlewyrchu hyfforddiant a phrofiad yr unigolyn.
- Mae'n rhaid cyfiawnhau unrhyw ddatguddiad sy'n cynnwys gweinyddu sylweddau ymbelydrol mewn gosodiad radiolegol meddygol gan ymarferydd trwyddedig y mae ei gyflogwr yn meddu ar drwydded briodol ar gyfer y datguddiad hwnnw, yn y gosodiad hwnnw.
- Gall gweithredwyr sy'n gymwys barhau i awdurdodi'r datguddiadau yn unol â'r canllawiau cyfiawnhau a gyhoeddwyd gan ymarferydd trwyddedig sydd â'r hawl yn y gosodiad radiolegol meddygol hwnnw.
- Bydd unrhyw dystysgrifau Pwyllgor Cyngori ar Weinyddu Sylweddau Ymbelydrol (ARSAC) sy'n dod i ben ar ôl gweithredu'r rheoliadau newydd yn dal i fod yn ddilys ac yn cael eu hystyried yn gyfwerth â thrwydded ar gyfer yr ymarferydd a'r cyflogwr, hyd at y dyddiad y daw'r drwydded i ben. Bydd ffurflenni cais am drwyddedau o dan Reoliadau Ymbelydredd Ìoneiddio (Datguddio Meddygol) 2017 ar gael, drwy wefan

**iRefer**

14. Er mwyn hwyluso cyfeiriadau priodol i adrannau radioleg, ac ers 1989, mae Coleg Brenhinol y Radiolegwyr (RCR) wedi cyhoeddi canllawiau ar gyfer iRefer RCR: *Making the best use of clinical radiology (iRefer)*<sup>5</sup>. Cydnabyddir iRefer bellach fel offeryn pwysig i hyrwyddo delweddau yn seiliedig ar dystiolaeth. Cyhoeddwyd yr wythfed argraffiad o'r canllawiau ym mis Mai 2017. Anelir y canllawiau hyn at glinigwyr, radiolegwyr, radiograffyddion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill i bennu'r gweithdrefnau delweddu mwyaf addas ar gyfer amrywiaeth eang o broblemau clinigol ac i helpu clinigwyr i fodloni eu rhwymedigaethau o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2017. Cafodd y fethodoleg awgrymedig ei hachredu gan NICE Evidence, a reolir gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal. Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru wedi sicrhau trwydded genedlaethol a chyhoeddir cyfathrebiad dilynol â'r ddolen fyw pan fydd ar gael.

**Gweithredoedd ar gyfer sefydliadau GIG Cymru**

<b>MATER</b>	<b>GWEITHRED</b>
Polisi cyffredinol sy'n rheoli ymbelydredd ïoneiddio	Sicrhau bod polisi ymbelydredd y sefydliad yn adlewyrchu Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 2017 a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2017
Hysbysu Staff	Sicrhau bod pob aelod staff sy'n gweithio ag adrannau sy'n defnyddio ymbelydredd ïoneiddio, neu sy'n cyfeirio at yr adrannau hynny, yn ymwybodol o'r newidiadau
<b>Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 2017</b>	
Hysbysiad, cofrestriad neu ganiatâd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o dan Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 2017 <sup>6</sup> .	Mae'r unigolyn sy'n cwblhau'r wefan ar-lein yn gyfrifol yn unigol am sicrhau bod yr atebion a roddwyd yn gywir; argymhellir y dylid cwblhau hyn ar lefel weithredol o fewn sefydliad.
Penodi Swyddogion	Mae angen llythyron penodi newydd ar gyfer Cynghorwyr Diogelu rhag Ymbelydredd a Goruchwylwyr Diogelu

<sup>4</sup> <https://www.gov.uk/government/publications/arsac-notes-for-guidance/> / <https://www.gov.uk/government/publications/arsac-application-forms>

<sup>5</sup> <https://www.irefer.org.uk/>

<sup>6</sup> <https://services.hse.gov.uk/bssd/>

	rhag Ymbelydredd
Rheolau lleol sy'n rheoli ymbelydredd ïoneiddio	Dylid adolygu Rheolau Lleol yr Adran yn unol â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 2017 newydd.
Cydweithrediad cyflogwyr	Adolygu a chyfathrebu'r trefniadau
Gweithwyr allanol	Ystyried diffiniad newydd ar gyfer gweithwyr allanol e.e. myfyrwyr, locwm, asiantaeth
Monitro dosau ymbelydredd	Sicrhau bod y broses o fonitro staff yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 2017. Yn benodol, rhaid rhoi ystyriaeth ofalus i'r lefel dos newydd ar gyfer y llygad.
Hyfforddiant	Sicrhau bod Cynghorwyr Diogelu rhag Ymbelydredd a Goruchwylwyr Diogelu rhag Ymbelydredd wedi'u hyfforddi'n briodol.
<b>Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2017</b>	
Hawliau'r rhai sy'n cyflawni'r ddyletswydd	Sicrhau bod gan bawb sy'n cyflawni'r ddyletswydd yr hawl swyddogol i wneud hynny o dan Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2017
Cofrestr staff	Diweddarau'r gofrestr (matrics) ar gyfer Ymarferwyr a Gweithredwyr
Polisiâu a gweithdrefnau, ffeiliau techneg a phrotocol	Adolygu gweithdrefnau presennol Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 i sicrhau eu bod yn bodloni gofynion Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2017 a datblygu'r gweithdrefnau ychwanegol sy'n ofynnol gan Atodlen 2 i Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2017
Penodi Swyddogion	Arbenigwyr Ffiseg Feddygol. Sicrhau bod Arbenigwyr Ffiseg Feddygol yn ymwneud â datguddiadau e.e. trwy dimau optimeiddio delweddau
Trefniadau trwyddedu meddygaeth niwclear	Bydd amseriad y ceisiadau am drwyddedau cyflogwyr ac ymarferwyr yn dibynnu ar statws unrhyw dystysgrifau'r Pwyllgor Cynghori ar Weinyddu Sylweddau Ymbelydrol a ddelir ar hyn o bryd ar gyfer lleoliad penodol, gan fod y trefniadau pontio yn caniatáu i

	dystysgrifau o'r fath gael eu hystyried yn drwyddedau hyd nes iddynt ddod i ben. Felly, bydd angen i gyflogwyr adolygu'r dyddiadau dod i ben ac arferion clinigol a gwmpesir gan dystysgrifau cyfredol y Pwyllgor Cyngori ar Weinyddu Sylweddau Ymbelydrol er mwyn sicrhau bod ceisiadau yn cael eu cyflwyno pan fo angen. Noder y bydd angen cymeradwyo'r cais ar gyfer trwydded y cyflogwr ar lefel Weithredol o fewn y sefydliad.
Gwybodaeth am fanteision yn erbyn y peryglon	Datblygu'r wybodaeth addas i'r claf cyn ei archwilio (gweler paragraff 15 isod)
Gofalwyr a Chysurwyr	Datblygu'r wybodaeth addas a chyfyngiadau dos. Mae canllawiau fel rhan o Weithdrefnau'r Cyflogwyr yn ofyniad newydd (gweler paragraff 15 isod)
Cyfarpar	Sicrhau bod y cyfarpar a osodwyd ar ôl 6 Chwefror 2018 yn bodloni manyleb Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2017
Hyfforddiant (Atgyfeirydd)	Sicrhau bod pawb sy'n cyflawni'r ddyletswydd wedi'u hyfforddi'n briodol ac yn ymwybodol o'r newidiadau sy'n ofynnol gan Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2017

15. Mae'r Grŵp Cyngori Sefydlog Arbenigol ar Ddiogelu rhag Ymbelydredd yn gweithio â grwpiau eraill Pwyllgor Cyngori Gwyddonol Cymru i ddatblygu canllawiau 'unwaith i Gymru' sy'n ymwneud â 'gofalwyr a chysurwyr' a 'gwybodaeth am fanteision yn erbyn y peryglon ar gyfer cleifion'. Byddem yn annog sefydliadau'r GIG i weithio â'r Grŵp Cyngori Sefydlog Arbenigol ar Ddiogelu rhag Ymbelydredd i sicrhau bod cysondeb o ran y dulliau gweithredu. Caiff ail weithdy'r Grŵp Cyngori Sefydlog Arbenigol ar Ddiogelu rhag Ymbelydredd ei gynnal yn ystod gwanwyn 2018 i ddatblygu'r canllawiau a'r wybodaeth ymhellach er mwyn cefnogi sefydliadau'r GIG wrth roi Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 2017 a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2017 ar waith.

16. I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

Gwybodaeth am Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 2017 - cysylltwch â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

<http://www.hse.gov.uk/contact/information-advice.htm>



Gwybodaeth am Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2017  
– cysylltwch ag Arolygiaeth Iechyd Cymru  
<http://hiw.org.uk/contactus/?lang=en>

Gwybodaeth am y Grŵp Cyngori Sefydlog Arbenigol ar Ddiogelu rhag  
Ymbelydredd  
[healthcarescienceandtherapies@llyw.cymru](mailto:healthcarescienceandtherapies@llyw.cymru) neu  
[Julian.MacDonald@wales.nhs.uk](mailto:Julian.MacDonald@wales.nhs.uk)

### **Diolchiadau**

17. Datblygwyd y Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn gyda chefnogaeth hael fy  
nghydweithwyr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr - Helen Hughes,  
Julian MacDonald a Peter Hiles.

Yn gywir



Dr Rob Orford  
Prif Gynghorydd Gwyddonol (Iechyd) / Chief Scientific Adviser (Health)  
Yr Is-adran Arloesi a Thechnoleg Gofal Iechyd / Healthcare Technology &  
Innovation Division  
Y Gyfarwyddiaeth Gofal Sylfaenol ac Arloesi / Directorate of Primary Care and  
Innovation  
Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / Health and Social Service Group  
Llywodraeth Cymru / Welsh Government  
E-bost / Email: [healthcarescienceandtherapies@llyw.cymru](mailto:healthcarescienceandtherapies@llyw.cymru)